# CANOLFAN GYMUNEDOL DAI DAVIES

# CYNLLUN GOLEUADAU LED

WEDI'I DDARPARU GAN GARFAN YNNI A LLEIHAU CARBON CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF RHWNG 2023 A 2024

RHONDDA CYNON TAF



Yn rhan o'r Prosiect Lleihau Carbon rhwng mis Ebrill 2023 a Mawrth 2024, mae **dros 50 o oleuadau LED** wedi cael eu gosod yng Nghanolfan Gymunedol Dai Davies, Porth.

O'u cymharu â goleuadau traddodiadol megis bylbiau gwynias a fflwroleuol, mae goleuadau LED yn fwy effeithlon gan eu bod nhw'n trosi canran uwch o ynni yn olau, yn cynhyrchu llai o wres, ac yn para am ragor o amser. Mae hyn yn golygu bod goleuadau LED yn effeithiol o ran cost a'u bod nhw'n ddewis cynaliadwy poblogaidd ar gyfer anghenion goleuo.

Mae data yn dangos bod y prosiect yma'n **arbed 2,490 kWh y flwyddyn,** sy'n cyfateb i **£598 y flwyddyn** (yn seiliedig ar gostau ynni presennol). Mae'r gwaith gosod yma'n sicrhau gostyngiad o 0.96 **tunnell y flwyddyn** yn allyriadau nwyon tŷ gwydr y Cyngor, gan helpu'r Cyngor i symud tuag at ei darged o fod yn garbon niwtral erbyn 2030.

**2,490**
**kWh y flwyddyn**

**£598**
**y flwyddyn**

**0.96**
**tunnell y flwyddyn**

**CYSYLLTWCH Â NI** Ynni@rctcbc.gov.uk